

BALCHDER YN Y FRO

CYLCHLYTHYR
CYMUNEDAU
GWLEDIG
CREADIGOL
2015

TU MEWN: BUDDSODDI YN ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG • DARGANFOD LLWYBRAU NEWYDD Y FRO
• PROSIECTAU TREFTADAETH NEWYDD • EDRYCH TUA'R DYFODOL



UCHOD, CHWITH: Cadeirydd Partneriaeth Wledig Bro Morgannwg, Norman Jenkins, Ffermwr Lleol



UCHOD, DDE: Cadeirydd Grŵp Gweithredu Lleol Cymunedau Gwledig Creadigol, Mandy Davies, Sefydliad Twristiaeth Bro Morgannwg

Croeso...

Sefydlwyd Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) yn 2004, a dyma fenter adfywio gwledig Cyngor Bro Morgannwg. Mae'n gweithio gyda chymunedau i ddatblygu prosiectau a syniadau arloesol a fydd yn creu budd cymdeithasol ac economaidd hirdymor i'r Fro.

Arolygir Cynllun Datblygu Gwledig yn y Fro gan Bartneriaeth Wledig a Grŵp Gweithredu Lleol.

Daw aelodau'r byrddau hyn o sectorau preifat, cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol y Fro – mae wir yn ddull o'r gwraidd i fyny tuag at adfywio.

Mae'r byrddau hyn yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth ac am ddarparu prosiectau ac ni fyddai wedi bod yn bosib i ddim o'r gwaeth hyn ddigwydd heb eu cefnogaeth ddiddiwedd a'u gwaith caled.

Bydd y cylchlythyr hwn yn rhoi blas i chi o'r prosiectau a gefnogwyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol rhwng 2011 a 2014 yn ail gyfnod rhaglen chwe blynedd o fuddsoddi sy'n werth £7.7miliwn.

Ariennir prosiectau'n bennaf gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Gall y buddsoddiad hwn ddod ar ffurf prosiect cychwynnol neu gynllun grant o dan thema benodol.

FFOCWS Y RHAGLEN HON HYD YN HYN FU:


- Gwell gwasanaethau ar gyfer yr economi a'r boblogaeth leol
- Adfywio pentrefi
- Gweithgareddau twristiaeth
- Diogelu a gwella ein treftadaeth wledig
- Arallgyfeirio teuluoedd ffermio i mewn i weithgareddau an-amaethyddol
- Creu a datblygu micro-fentrau

Y DULL LEADER

Yn ogystal â'r grantiau a ddosbarthwyd gan Gymunedau Gwledig Cymunedol dros y blynyddoedd, mae'r dull LEADER i adfywio yn dal i fod wrth wraidd llawer o'n gwaith o ddydd i ddydd.

Beth yw'r dull LEADER?

Acronym o'r Ffrangeg yw LEADER sy'n golygu cysylltiadau rhwng gweithredoedd ar gyfer datblygu'r economi wledig. Mae'n ddull o harneisio gwybodaeth leol er mwyn galluogi gweithredu dull "o'r gwraidd" i ddatblygu cymunedol gan y gymuned ac mae'n rhaglen sy'n gweithredu ledled Ewrop.



Grŵp Gweithredu Lleol Bro Morgannwg

Bydd y Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) yn parhau i gefnogi a goruchwylio Cymunedau Gwledig Creadigol dros gyfnod nesaf y gwaith yn 2014–2020; dyma'r sefydliadau sy'n aelodau:

GWIRFODDOL


Canolfan y Fro ar gyfer Gwasanaethau Gwirfoddol (Cadeirydd)
Cymdeithas Ymwelwyr Bro Morgannwg (Is-gadeirydd)
Cynnal Cymru
Biwro Gwirfoddolwyr y Fro
Gŵyl Fwyd a Diod y Bont-faen
Canolfan Gelfyddydau Sain Dunawd

PREIFAT

Undeb Amaethwyr Cymru
Marchnad Ffermwyr Bro Morgannwg
NFU Cymru
Task Force Paintball (Is-gadeirydd)
Waitrose
Slade Farm Organics
Ystâd Fferm Penllyn
Rhwydwaith Busnes Merched y Fro

CYHOEDDUS

Cyngor Bro Morgannwg
Cyfoeth Naturiol Cymru
Uwch-ranbarth Twristiaeth
Cyngor Tref y Bont-faen
Cyngor Tref Llanilltud Fawr





Elwa ar yr arfordir treftadaeth



PEBYLL PERFFAITH

Mae hi'n fisoedd olaf 2011, mae Bro Morgannwg yn paratoi ar gyfer cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol a dim ond ychydig o fisoedd sydd nes lansio Llwybr Arfordir Cymru – mae'r galw am lety rhad yn uwch nag erioed.

I fanteisio ar hyn, lansiodd Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) gynllun peilot Coastal Camping i ddarparu popeth fyddai'n angen ar dirfeddianwyr i sefydlu meysydd gweryslla arbrolfol.

O ganlyniad i'r prosiect, crewyd pum safle newydd a estynnodd groeso i fwy na 600 o wersyllwyr yn ystod haf 2012.

Gwahoddwyd pob tirfeddianwr i gymryd rhan mewn ymgyrch farchnata ar y cyd, rhwydweithio a digwyddiadau rhannu gwybodaeth, ymweliadau astudio, derbyniodd pob un gefnogaeth unigol perthnasol i'w datblygiadau penodol, ynghyd â chymorth gyda gofynion caniatâd cynllunio.

Cefnogwyd dau safle oedd yn bodoli eisoes fel rhan o'r prosiect yn ogystal.

Meddai Glyn George, cyd-berchennog Maes Gwersylla Heritage Coast gyda'i wraig Philippa: "Fe wnaeth y gefnogaeth a gawsom oddi wrth Cymunedau Gwledig Creadigol roi hwb ardderchog i ni i fentro sefydlu maes gweryslla ar gyfer teuluoedd a chyplau.

"Rydyn ni wedi cael tipyn o gyngor arbenigol drwy gyfrwng y fenter, a hynny mewn meysydd o drwyddedu, cynllunio ac iechyd a diogelwch i farchnata a graddio."

Parhaodd CGC i gynghori pob safle a ddarpar-safleoedd gweryslla yn yr ardal ers y cyfnod treialu.

Dysgwch ragor:
perfectpitchcamping.co.uk/news

Meysydd Gwersylla a gymerodd ran

- Maes Gwersylla Farmers Fields** Llanilltud Fawr
- Maes Gwersylla Lougher Moor** Llanilltud Fawr
- Maes Gwersylla Heritage Coast** Yr As Fawr
- Maes Gwersylla Pool Farm** Sant-y-brid
- Maes Gwersylla Three Golden Cups** Southerndown
- Maes Gwersylla Happy Jakes** Trefflemin (*maes gweryslla oedd yn bodoli eisoes*)
- Maes Gwersylla Parc Llandŵ** Llandŵ (*maes gweryslla oedd yn bodoli eisoes*)



DOD Â RHAGOR I'R TRAETH

Yn ystod haf 2014 sefydlwyd chwech o weithgareddau arfordirol cyffrous ar lan y môr er mwyn ceisio cynyddu apêl yr ardal fel cyrchfan i ymwelwyr.

Lansiwyd y gweithgareddau, oedd yn amrywio o weithdai celfyddydol i sesiynau ffotograffiaeth, fel rhan o Raglen Weithgareddau Peilot Arfordir Treftadaeth Morgannwg y Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC).

Lansiwyd y rhaglen honno i ysbrydoli pobl sydd ar dân dros yr arfordir i ddarparu atyniadau newydd ar gyfer ymwelwyr.

Derbyniodd trefnwyr pob gweithgaredd peilot gefnogaeth oddi wrth CGC drwy gydol y prosiect, gan gynnwys teithiau cynefino, cyfleoedd i rwydweithio, cyngor ar farchnata a'r cyfryngau, datblygu sgiliau a chefnogaeth fusnes unigol.

Meddai Dylan Jones, a lansiodd Ffoto Ramble, gan gynnig gwersi ffotograffiaeth wrth fynd am dro ar hyd yr arfordir: "Roeddwn i'n teimlo fod y gefnogaeth ges i yn hamddenol ond yn addas o ffurfiol."

"Roedd hi'n dda fod yna amserlen i weithio tuag ati. Helpodd hynny fi i symud syniad fy mhrosiect i yn ei flaen, ond heb godi gormod o ofn."

"Roedd CGC ar gael pan oedd angen cyngor arna i ac roedd eu hadborth nhw'n ddefnyddiol iawn."

Mae pob un a gymerodd ran yn gobeithio dal ati i gynnig eu gweithgareddau unigol yn y dyfodol.

Darganfod mwy: moretothevale.com/coastal-activities

HYBU'R GORFFENOL GYDA'R DECHNOLEG DDIWEDDARAF

Arfordir Treftadaeth helaeth a hardd Morgannwg yw cyfrinach orau Bro Morgannwg!

Yn ôl gwaith ymchwil gan y Grŵp Gweithredu Lleol, roedd ymwelwyr a thriolion lleol yn cael anhwyster adnabod Arfordir Treftadaeth Morgannwg, ble y mae, a beth sy'n ei wneud mor unigryw. O ganlyniad, ffurfiwyd grŵp llywio a chytunwyd i wneud nifer o welliannau gan gynnwys cyfres o bwytiau croesawu, cyfeiriadu a dehongli ar hyd yr arfordir, yn ogystal â gwefan newydd www.visitglamorganheritagecoast.com

Ar y cyd â phrosiectau eraill gan Gymunedau Gwledig Creadigol, mae nifer o bwytiau gwybodaeth twristiaeth wedi'u sefydlu ar hyd yr arfordir ac mae cyfres o deithiau cerdded wedi'u datblygu ar hyd yr arfordir. Hefyd, mae nifer o wirfoddolwyr a busnesau lleol wedi dod yn Llysgenhadon y Fro i helpu i hyrwyddo'r Fro ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

Er bod yr arfordir yn filoedd o flynyddoedd oed, mae hefyd yn elwa o'r dechnoleg ddiweddaraf. Mae nifer o apiau newydd wedi cael eu comisiynu i ategu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i hyrwyddo'r arfordir.

Bydd ap newydd Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, er enghraifft, gwybodaeth am deithiau cerdded a gwybodaeth ddefnyddiol arall i ymwelwyr. Mae safleoedd allweddol fel Dwn-rhefn a Nash Point wedi cael eu dewis i gynnal peilot Realiti Estynedig fel ffordd o ddatblygu hanes yn fyw.



Realiti Estynedig ar waith ar fryngaer Dwn-rhefn

Hybu'r gorffennol gyda' dechnoleg ddiweddaraf

- Cerdded â Chamera**
Gwersi ffotograffiaeth wrth fynd am dro ar hyd yr arfordir.
- Gweithdy Ffenestri Lliw**
Gweithdai gwyrdd lliw a ysbrydolwyd gan yr arfordir
- Ceffyl a Chert a Chamera**
Gwersi ffotograffiaeth mewn cerbyd a dynnwyd gan geffyl
- Teithiau Teilwra Oakwoods**
Teithiau o gwmpas yr arfordir wedi'u trefnu'n arbennig, a'u harwain gan chauffer
- Gwehyddu Helyg yn Monks Wood**
Sesiynau blasu gwehyddu helyg yn y goedwig
- Chwilota am Fwyd ar y Traeth**
Sesiwn blasu chwilio am fwyd a choginio ar y traeth

"Bu'n wych cael rhywun i siarad â nhw yn ystod y camau cyntaf hyn; yn enwedig rhywun sy'n deall, sy'n eich deall chi, ac sy'n gallu gweld ble mae angen i'ch busnes chi fynd." – Shan Eastwood o Oakwood Bespoke Journeys.



LLEDU'R GAIR

Fuodd hi erioed yn haws i ymwelwyr ddarganfod cyfrinachau'r Fro diolch i fwy na 50 o lleoliadau Pwynt Croeso i Ymwelwyr a osodwyd ledled y Fro.

Gosodwyd y lleoliadau hyn drwy gyfrwng y Prosiect Darparu Gwybodaeth er mwyn cynorthwyo ymwelwyr i'r Fro o ganlyniad i gau'r Canolfannau Croeso rhanbarthol.

Mae'r prosiect wedi creu gwell cysylltiadau rhwng atyniadau lleol a lleoliadau er mwyn annog ymwelwyr i dreulio mwy o'u hamser yn archwilio'r Fro.

Cefnogir y prosiect gan yr Adran Dwristiaeth i sicrhau fod y lleoliadau'n darparu gwybodaeth gywir, ddiweddar a pherthnasol.



WYNEBAU'R FRO

Daeth un ar bymtheg o bobl yn llysgenhadon swyddogol ar gyfer y fwrdeistref fel rhan o brosiect sy'n anelu i gynyddu twristiaeth drwy harneisio'r tân sydd gan bobl at y Fro.

Sefydlwyd Rhaglen Llysgenhadon y Fro i ddod o hyd i drigolion a allai rannu'u cariad a'u gwybodaeth am yr ardal gydag ymwelwyr, ei hannog i aros yn hwy, i ddychwelyd ac yna annog eraill i ymweld.

Gwirfoddolodd Llysgenhadon y Fro llwyddiannus eu hamser i fynychu gweithdai a theithiau oedd yn cynnwys siaradwyr arbenigol a phhecynnau gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth am themâu'n cynnwys pobl, hanes, bwyd, crefftau a diwylliant.

Bydd llysgenhadon yn cyfrannu ar lefelau gwahanol, gan gynnwys cwrdd a chroesawu pobl, a phostio blogiadau a gwirfoddoli mewn digwyddiadau.

Cyhoeddir gwybodaeth ar wefannau Visit the Vale a More to the Vale, gan gynnwys lluniau o'r llysgenhadon, eu manylion cyswllt a'u meysydd arbenigedd.

Maes o law, ychwanegir recordiadau sain o'r Llysgenhadon yn adrodd hanesion o'r Fro, siaradwyr arbenigol a cherddoriaeth draddodiadol, i'r gwefannau hyn.



MAE GWEITHIO GYDA'N GILYDD YN GWNEUD SYNNEWYR

Sut y bydd ymwelwyr yn gwybod eu bod wedi cyrraedd Cymru, neu, yn fwy penodol, Arfordir Treftadaeth Morgannwg? Sut y gallan nhw fwynhau profiad gwyliau unigryw a mynd adre gan siarad am y pethau sy'n gwneud yr ardal mor arbennig? Dyna'r her yr oedd Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) yn ymateb iddo wrth iddyn nhw lansio'r cynllun Synnwyr Lle.

Mae "Synnwyr Lle" yn fodd o gyfathrebu i ymwelwyr bopeth sydd gennym i'w gynnig drwy hybu bwyd, treftadaeth, iaith, yr awyr agored, celf, crefftau a diwylliant.

Helpodd y cynllun ddatblygu synnwyr lle mysg pobl oedd yn gweithio ym maes twristiaeth yn lleol, a sefydliadau oedd yn cwrdd ag ymwelwyr, gan wella'u gwybodaeth leol a chynyddu effeithiolrwydd cyfathrebu hynny i'w hymwelwyr.

Lansiwyd y cynllun trwy gyfrwng cyfres o weithdai a fynychwyd gan drawsoriad o'r gymuned, gan gynnwys pobl oedd yn cynnal busnesau twristiaid lleol, haneswyr, artistiaid ac aelodau'r gymuned.

O ganlyniad i'r gweithdai, crëwyd "Palet Arfordir Treftadaeth", sy'n adnodd i hybu'r arfordir.

Ym mis Mai 2013, cynhaliwyd digwyddiad "Synnwyr Lle" yng Nghanolfan Gelfyddydau San Dunwyd, i rannu pethau gorau'r Arfordir Treftadaeth gyda'r gymuned dwristiaid, darparu

cyfle i rwydweithio a rhannu gwybodaeth ynghyd â chynyddu hyder mewn hybu'r ardal i ymwelwyr.

Mynychodd dros 50 o fusnesau lleol, sefydliadau ac unigolion y digwyddiad ble cawson nhw fwynhau sgysiau gan siaradwyr lleol yn amrywio o fragwyr i geidwaid goleudy.

Bu i'r mynychwyr fwynhau picnic o fwydydd lleol, barddoniaeth a ysbrydolwyd gan yr arfordir treftadaeth, gweithdai mewn treftadaeth, adrodd stori a dosbarth coginio oedd yn rhoi sylw i Selsig Morgannwg enwog!

Yn gefn i'r digwyddiad hwn, cynhaliodd CGC arddangosfa gelf dros gyfnod o fis i arddangos gwaith dros 50 o artistiaid lleol yn arbenigo mewn peintio, cerflunio a gemwaith a ysbrydolwyd oll gan Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

Defnyddiwyd y sesiynau hyn i drafod sut y gellid elwa rhagor drwy ddefnyddio bwyd, celf a llenyddiaeth leol, yn ogystal â sut y gall sefydliadau gefnogi'r gilydd drwy gyfeirio ymwelwyr at atyniadau, gweithgareddau a lleoliadau diddorol cyfagos.

GWELLA EIN TREFI

Cynhaliwyd adolygiadau manwl yn Llanilltud fawr a'r Bont-faen fel rhan o ymarferiad cenedlaethol i geisio arfer dda o blith dros 120 o drefi.

Hanfod yr ymarferiad oedd dal data ar 12 ffactor allweddol gan gynnwys darpariaeth manwerthu, nifer ymwelwyr, parcio ceir a barn siopwyr.

O ganlyniad i'r ymarferiad meincnodi, lluniwyd adroddiad cynhwysfawr sy'n tynnu sylw at gyfriderau a gwendidau'r ddwy dref, ynghyd ag argymhellion sut y gellid gwella'r ddwy.

Er mwyn symud yr argymhellion hyn yn eu blaenau, sefydlwyd 'Timau Trefi' yn y ddwy ardal gyda chefnogaeth Swyddog Datblygu Canol Trefi'r Cyngor a'r Cymunedau Gwledig Creadigol.

Mae'r Timau Tref bellach yng weithio ynghyd i greu dehongli yn y ddwy dref.

Ymhlith enghreifftiau cynnar o welliannau'n deillio o'r prosiect hwn y mae gosod unedau ffrâm derw ar yr arfordir treftadaeth a chreu tri dyluniad moder yn canolbwyntio ar gyfeirio a hanes yn y Bont-faen.

Darganfod Llwybrau'r Fro ar eu newydd wedd

Lansiwyd deg llwybr cerdded i ysbrydoli pobl i ddysgu mwy am y Fro wrth iddyn nhw gadw'n heini.

Mae Llwybrau'r Fro, cyfres o bum llwybr arfordirol a phum llwybr gwledig, wedi cael eu datblygu gan Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) mewn cydweithrediad â Cherddwyr Bro Morgannwg a Valeways.

Gellir lawrlwytho taflenni ar gyfer pob un o'r llwybrau, sydd weithiau'n cynnig taith haws a mwy heriol ar gyfer galluedd gwahanol, manau o ddiddordeb a hyd yn oed faint o galoriau a ddefnyddiwyd, oddi ar y we.

Mae copiau caled ar gael hefyd o 50 pwyn croeso ar draws y Fro.

Mae cerdded ym Mro Morgannwg yn cyfuno'r darn eithriadol ddiddorol o Llwybr Arfordir Cymru gyda harddwch hanesyddol, darluniadol y Fro wledig.

Ar hyd yr arfordir garw gall cerddwyr ddarganfod y goleudy olaf yng Nghymru i'w gadw gan geidwad (aeth yn otomatig mor ddiweddar â 1998) a'r ardd furog o'r 16eg ganrif ym Mae Dwnrhefn.

Yn y wlad, gall cerddwyr ddarganfod trefi marchnad hanesyddol y Bont-faen a Llanilltud Fawr, yn ogystal â phentrefi delfrydol fel Sain Nicholas a Sant-y-Brid.

Gellir darganfod mwy:
www.visitthevale.com

Llwybrau'r Fro

LLWYBRAU ARFORDIROL

Llwybr Ogwr
Saint-y-Brid

Llwybr Arfordir a Goleudy
Llanilltud Fawr / Trwyn yr As Fach

Llwybr y Croesau
Celtaidd a'r Arfordir
Llanilltud Fawr

Llwybr Parc a Glan-môr
Sain Tathan / Rhŵs / Y Barri

Llwybr arfordir a phier
Sili / Penarth

LLWYBRAU GWLEDIG

Llwybr Naid Eog
Dinas Powys

Llwybr Cae'r Ysbryd
Sain Nicholas

Llwybr y Fforest Hud
Llanbedr-y-fro

Llwybr Treftadaeth Iolo Morganwg
Y Bont-faen

Llwybr Eweni a Blodau'r Gwanwyn
Llandŵ / Eweni

BLAS AR LWYDDIANT

Os bu i chi erioed flasu bwyd neu ddiodyd yn ffres o'r Fro yna fe fyddwch chi'n gwylboda pam ei bod hi mor bwysig cefnogi cynhyrchwyr lleol.

Sefydlodd Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) brosiect Pencampwyr Bwyd Lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnyrch lleol, mynediad iddo a defnydd ohono.

Mae'n bur debygol y bydd y miloedd o bobl a ymwelodd â Sioe'r Fro eleni wedi ymweld â'r Pencampwyr Bwyd Lleol yn ardal y cwrt bwyd newydd a sefydlwyd fel menter ar y cyd rhwng CGC, Cywain a Marchnad Ffermwyr Bro Morgannwg.

Yn ogystal â chefnogi digwyddiadau sy'n dod â chynhyrchwyr o bob cwr o'r Fro ynghyd, mae'r prosiect hefyd yn darparu cymorth marchnata i gynhyrchwyr newydd, yn treialu teithiau bwyd newydd ac yn cefnogi mentrau cymunedol.

Roedd grantiau hyd at £2k ar gael i gefnogi prosiectau Pencampwyr Bwyd Lleol ac elwodd naw menter o'r cynllun, gan gynnwys bragdy Tomos a Lilford, o Lanilltud Fawr, a elwodd o'r prosiect Pencampwyr Bwyd Lleol.

Bu'r bragwyr newydd yn llwyddiannus gyda'u cais am £2,000 oddi wrth CGC i'w wario gydag asiantaeth hysbysebu ar ddatblygu brand.

"Fe gawson ni'r holl brofiad gyda CGC yn gadarnhaol iawn, ac fe ddywedwn i, fel busnes newydd, fod hyd yn oed y broses o lunio'r cais grant yn gadarnhaol, am ei fod yn eich gorfodi chi i gyrraedd lefel newydd o gynllunio ac ystyried"

Rob Lilford



MILOEDD YN TYRRU I FARCHNAD Y FFERMWYR YN SIOE'R FRO 2013

- Brandio Bragdy Tomos Lilford
- Gŵyl Fwyd Ymylol y Bont-faen
- Cais Popty Clom
- Marchwellt Ffres
- Bara Brith – Datblygu Pecynnu
- Safari Bwyd Cymreig
- Anturiaethau Bwyd – Taith Fwyd
- Perllannau Llanfleiddan
- Arddangosfa Marchnad Ffermwyr y Fro – Sioe'r Fro

£13k

WEDI'I FUDDSODDI MEWN HYRWYDDWYR BWYD LLEOL



EIN TEULUOEDD FFERMIO 'FABLAS'



"Rydyn ni wedi gallu tyfu'r busnes yn gyson drwy fynychu marchnadoedd bwyd a sioeau awyr agored."

— Rhian Rees, Ffablas Icecream

Buddsodwyd dros hanner miliwn o bunneodd yng nghymuned ffermio wledig y Fro drwy gyfrwng prosiect 'Balch o Ffermydd Teuluol'.

Bwriad y prosiect yw cefnogi'r gymuned ffarmio i edrych ar gyflwyno mentrau an-amaethyddol i helpu cynnal ffermydd, darparu ffrydiau incwm ychwanegol a sicrhau dyfodol y fferm deuluol.

Cefnogwyd 13 o fentrau i gyd, a sawl un o'r rheiny'n drwm dan ddylanwad twristiaeth.

Un esiampl o fusnes newydd a gefnogir drwy gyfrwng y prosiect yw Hufen Ia Ffablas, a sefydlwyd gan y ffermwyr Ilaeth David a Rhian Rees a'u tri mab.

Galluogodd grant nhw i brynu'r offer angenrheidiol i arddangos eu cynnyrch yn rhai o brif ddigwyddiadau Cymru.

'Rydyn ni wedi gallu tyfu'r busnes yn gyson drwy fynychu marchnadoedd bwyd a sioeau awyr agored,' meddai Rhian.

Ariennir prosiect Cymunedau Gwledig Creadigol 'Balch o Ffermydd Teuluol' gan y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) i Gymru gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaeth Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig.

Anogwyd pob ymgeisydd i ofyn am gymorth oddi wrth sefydliadau gan gynnwys Busnes Cymru, Farming Connect, Lantra a Cywain wrth ddatblygu cynlluniau busnes i gefnogi'u ceisiadau.

Prosiectau a gefnogwyd

Phil Dando Racing

Stable Cottage Rug Wash

Cowbridge Cabins

AJT Equestrian

Picket Pods

Vale Carriages

Hendrewennol Fruit Farm

Warren Mill Bunkhouse

3 Golden Cups Campsite

Ffablas Ice Cream

Sutton Newydd Barns

Brambles Tea Room at Meadowvale Garden Centre

Lilypot Farm

£577K

WEDI'I FUDDSODDI MEWN ARALLGYFEIRIO FFERMYDD

Ymfalchïo yn ein treftadaeth

Mae cyfoeth o dreftadaeth yn aros i gael ei ddarganfod ym Mro Morgannwg a thros y tair blynedd ddiwethaf, gwariwyd dros £356,305 i ddiogelu'r trysorau hanesyddol hyn ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Cafwyd yr arian drwy gynllun grant 'Balch o'n Treftadaeth', a ddatblygwyd i gefnogi a dathlu treftadaeth ddiwylliannol, naturiol ac adeiledig y Fro.

Gweithiodd CRC gydag ymgeiswyr o'r sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus i ariannu 21 o brosiectau.

Ymhlith y prosiectau treftadaeth adeiledig a gefnogwyd roedd adfer Old Place yn Llanilltud Fawr, Capel Galilea, muriau hanesyddol tref y Bont-faen a Waliâu Gardd Dwnrhefn yn Southerndown.

Ymysg y prosiectau treftadaeth ddiwylliannol roedd datblygu a hybu'r grŵp gwerin traddodiadol Alawon Llanilltud Fawr a dadansoddi paentiadau muriau o safon ryngwladol ar waliâu Eglwys San Cadog yn Llancarfan.

Yn ogystal gosodwyd byrddau dadansoddi ym Mhentref Canoloesol Cosmeston, Gerddi'r Hen Neuadd ac ar hyd yr Arfordir Treftadaeth.

O ganlyniad i gyllid, galluogwyd Cymdeithasau Hanes y Bont-faen a Llanilltud i ddigideiddio'u casgliadau, cefnogwyd adrodd straeon yn Hendrewennol a defnyddiwyd yr arian i greu taith gerdded hanesyddol o gwmpas pentref Llanilltud a llyfrau gweithgareddau i blant.

Roedd y prosiectau treftadaeth naturiol yn cynnwys byrddau dehongli ym Mhwynt Rhŵs, Gerddi'r Hen Neuadd, yr arfordir treftadaeth a gwinllan Glyndŵr.

Enillwyr Grantiau Treftadaeth

Adfer wal hynafol, Hen Neuadd y Bont-faen

Cylch Adrodd Stori y Bont-faen, Hen Neuadd y Bont-faen

Prosiect Capel Galilee, Llanilltud Fawr

Adfer Old Place, Llanilltud Fawr

Hanes Cymunedol Tresimwn, arddangosfa yn Eglwys y Santes Fair

Dehongli ym Mhentref Canoloesol Cosmeston, Sili

Adfer Gardd Furog Dwnrhefn

Dehongli Bywyd Gwyllt, Trwyn y Rhws

Diogelu Confodion yn Amgueddfa'r Bont-faen

Gwestu Gwenyn a chynefin bywyd gwyllt, Pwll a Pherllan y Wenfô

Dehongli Paentiadau Mur Canoloesol yn Eglwys Llancarfan

Dehongli ar gyfer yr Arfordir Treftadaeth ledled y Fro orllewinol

Digideiddio cofnodion Cymdeithas Hanes Llanilltud Fawr

Digideiddio cofnodion Cymdeithas Hanes Y Bont-faen

Digwyddiad Calan Gaeaf newydd yn Hendrewennol, San Dunwyd

Teithau hunan-arwain yng Ngwinllan Glyndŵr, Llanfleiddan

Gŵyl y Cynhaef newydd, Y Bont-faen

Creu Llwybr Hanes Llanfleiddan

Gardd Duduraidd, Gardd Furog Dwnrhefn

Gweithgareddau i Blant, Bio Amrywiaeth a Llwybr Iolo, Ymddiriedolaeth Siatr y Bont-faen

Byrddau Dehongli Treftadaeth Dinas Powys

Datblygu Clwb Alawon Llanilltud Fawr

Bwrdd Iolo yn Eglwys Llancarfan

£356k
WEDD'I
FUDDSODDI
MEWN ASEDAU
TREFTADAETH

GWNEUD HANES YN HWYL

Crëwyd cyfres o weithgareddau i ddenu ymwelwyr iau arfordir treftadaeth Morgannwg.

Mae pecynnau gweithgaredd, gêm ryngweithiol a recordiadau sain i gyd yn annog pobl ifanc i fwynhau wrth ddysg am y dirwedd ddi-ddorol.

Cynhyrchwyd pum pecyn gweithgaredd, gyda phob un yn canolbwyntio ar ardal ddaeryddol benodol.

Mae'r pecynnau'n cael eu treialu ymhob un o'r lleoliadau a gellir lawrlwytho PDF o www.visithewale.com. Atgynhyrchwyd rhai o'r gweithgareddau allan o'r pecynnau ar ffurf paneli 'Hwyl i'r Teulu' ar hyd yr arfordir treftadaeth.

Profiad digidol a ddatblygwyd i helpu cynulleidfaoedd iau ymwneud a dysgu mwy am dreftadaeth yr arfordir yw 'Wreckers Game'.



Mae chwaraewyr yn gyfrifol am arwain cwch ar hyd y môr garw tra'n ceisio osgoi'r llanw mawr a'r banciau tywod, gan gadw o ffordd llongddryllwyr a llywio i ffordd o beryglon - rhaid iddyn nhw hefyd gasglu llwyth gwerthfawr ac osgoi'r bareli ffrwydron! Seiliwyd y gêm ar straeon go iawn o'r arfordir.

Gosodwyd y sianeli sain 'nid i oedolion' mewn sawl lleoliad ar hyd yr arfordir.

Mae'r recordiadau'n cynnwys plant yn chwarae rhannu cymeriadau hanesyddol wrth iddyn nhw adrodd stori'r arfordir mewn arddull sy'n addas ar gyfer ymwelwyr ifanc.



CYSYLLTU'R FRO

Lansiwyd Greenlinks, gwasanaeth trafniadaeth cymunedau gwledig y Fro, yn 2010, gydag un bws 13 sedd.

Bedair blynedd yn ddiweddarach, mae'r gwasanaeth bellach yn gweithredu gyda phedwar cerbyd, ac fe'i defnyddir gan dros 1,000 o deithwyr bob mis.

Yn ogystal â gwasanaeth o ddrws i ddrws, ceir gwasanaeth wythnosol ar gyfer Llanilltud Fawr, y Bont-faen, Pen-y-bont a'r pentrefi cyfagos.

Ceir gwasanaeth wythnosol rhwng Llanilltud Fawr a Chaerdydd yn ogystal.

Cefnogwyd Greenlinks gan 30 o yrwyr gwirfoddol ers ei lansio.

Bydd y gwasanaeth yn parhau ar ôl mis Rhagfyr 2014, pan fydd Bro Morgannwg yn darparu cefnogaeth ariannol.

Yn y Flwyddyn Newydd bydd y gwasanaeth yn derbyn dau gerbyd newydd, car hygyrch a bws newydd 12 sedd, gan godi nifer y cerbydau i bump.



AR Y LLWYBR CYWIR

Buddsoddodd Cymunedau Gwledig Creadigol £700,000 mewn Gwelliannau Cyfalaf i Rwydwaith Seiclo NCN88 sy'n rhedeg o un pen y Fro i'r llall.

Mae'r rwydwaith heriol hon yn ffefryn gan seiclwyr heol a gobeithio y bydd y llwybr newydd hwn yn gallu cael ei ddefnyddio fel pwynt cychwynnol er mwyn datblygu mwy ar seiclo fel gweithgaredd i ymwelwyr yn yr ardal.



RHWYDWAITH DIGWYDDIADAU GWLEDIG

Buddsodwyd yn helaethach yn y Rhwydwaith Digwyddiadau Gwledig - adnodd ar gyfer trefnwyr digwyddiadau gwledig.

Mae gan y rhwydwaith, a gydllynir gan swyddog digwyddiadau Cyngor Bro Morgannwg, stoc o offer ar gael i'w ddefnyddio ac mae'n agored i unrhyw un sy'n ymddiddori mewn datblygu a darparu digwyddiadau o safon yn y Fro wledig.

Mwy o wybodaeth:
www.ruraleventsnetwork.com





GOLAU, CAMERA, 'ACTION!'

Bu dod â'r sgrin fawr i leoliadau bach yn fwriad gan brosiect Sinema Wledig y Fro Cymunedau Gwledig Creadigol.

O ganlyniad i lwyddiant Sgrin Fawr y Bont-faen, adnabu Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) alw am ddangos ffilmiau'n lleol ledled y Fro wledig.

Lansiodd CGC arbrawf oedd yn cynnwys hyfforddi gwirfoddolwyr sy'n caru ffilm, i ddefnyddio offer dangos ffilmiau symundol newydd ei brynu.

Wedi'r arbrawf, cynigiodd sawl cymuned am set iddyn nhw'u hunain o'r offer, a chwasant lwyddiant wrth sicrhau cyllid Axis 3.

Bydd pob lleoliad yn cynnwys dangosiadau cymunedol rheolaidd o ffilmiau, a bu i Sinema Gymunedol Llancafarn hyd yn oed ennill Cymdeithas Ffilm newydd orau yng Ngwobrau Cymdeithas Ffilm y Flwyddyn Sinema i Bawb 2013!



Lleoliadau a gefnogwyd

Canolfan Gymunedol Llancafarn

Sgrin Fawr y Bont-faen Cowbridge

Sinema Gymunedol Llanbedr-y-Fro

Sinema Murchfield - Dinas Powys

Sinema Gymunedol Tregolwyn

Canolfan Gelfyddydau San Dunwyd

£124k
WEDI'I
FUDDSODDI MEWN
GWASANAETHAU A
CHANOLFANNAU
CYMUNEDOL



SIOPA A THORRI SYCHED

A fu gwell esgus erioed i ymweld â'r dafarn leol?

Mae pedair tafarn yn y Fro bellach yn gweithredu fel siopau bach o ganlyniad i gyllid drwy gyfrwng cynllun Canolfannau Gwledig CGC.

Bwriad y cynllun grant yw arallgyfeirio gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, megis tafardai lleol a gofodau cymunedol, er mwyn cynnig gwell adnoddau hamdden a newydd ar draws y Fro wledig.

Un dafarn a elwodd o'r cynllun yw'r Cross Inn yn Llanfleiddan, ble gall y cwsmeriaid bellach siopa a thorri syched.

Derbyniodd Arthur O'Leary a'i fab Liam gyllid i wneud gwelliannau anghenrheidiol er mwyn lansio gwasanaeth siop gyfleus yn y dafarn boblogaidd.

"Ar ôl gweithio yn y diwydiant am nifer o flynyddoedd, gallai Liam a minnau weld y galw cynyddol am wasanaethau sy'n gwneud bywyd yn haws i aelodau'r gymuned," meddai Arthur.

"Yn ogystal â chefnogaeth ariannol, mae'r cyngor a'r arweinaid a gawsom oddi wrth y tîm yn CRC wedi bod yn amhrisiadwy drwy gydol y broses."

£117k
A WARIWYD
YN CYSYLLTU
CYMUNEDAU

- Llwybr Troed Ewenni Corntown
- Gwella llwybr troed y Bont-faen
- Twyn Yr Odyr
- Llan-fair - Sain Tathan
- Llwybr Ceffylau Hensol

MAE EICH BARN CHI'N BWYSIG

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich cymuned? Beth hoffech chi ei weld yn cael ei wella? Pa newidiadau fydddech chi'n eu gwneud?

Dyna rai o'r cwestiynau a ofynnwyd mewn 25 digwyddiad ymgynghoriol cymunedol yn y Fro wledig, a drefnwyd gan Gymunedau Gwledig Creadigol.

Dosbarthwyd adborth o'r digwyddiadau hyn ymysg cymunedau ac wedi fe'i defnyddiwyd i adnabod a datblygu prosiectau cymunedol ar gyfer y dyfodol gyda chefnogaeth CGC.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad, elwodd cymunedau ledled y Fro wledig o gynllun 'Balchder yn ein Pentrefi', a gyllidodd 12 prosiect gan gynnwys nifer o welliannau - yn eu plith roedd gosod meinciau newydd a chreu manau chwarae newydd.

Ailedrychodd rhai pentrefi ar eu hymgyngoriad cymunedol er mwyn gweld pa brosiectau a gyflawnwyd ac ychwanegu rhagor o syniadau ar gyfer prosiectau eraill yn eu pentrefi ar gyfer y dyfodol.

£264k
WEDI'I
FUDDSODDI
MEWN ADFWIO
PENTREFI


- Trwyn yr As Fach
- Llwybr Ceffylau Cross Common
- Pont Trwyn yr As Fach
- Llwybr Troed Sain Andras
- Llwybr Ceffylau Penllyn
- Llangan-Tregolwynn

TROI'N WYRDD

Mae'r Fro yn wyrddach nag erioed o ganlyniad i gyflawni 16 prosiect â ffocws amgylcheddol.

Gwelodd cynllun 'Green It' y CRC gyflawni awdritiau mewn adnoddau cymunedol ledled y Fro wledig i weld faint o botensial oedd ar gael i wneud hen adeiladau'n fwy cynaliadwy'n amgylcheddol.

O ganlyniad i'r awdit, roedd modd i sawl prosiect asesu cynllun grant 'Green It' i weithredu syniadau arbed arian. Mae'r gwaith yn cynnwys gosod system wresogi newydd yn neuaddau pentref Llangan a Phenllyn, a ffenestri newydd yn Eglwys yr Holl Saint.



PROSIECT FFŴDI CYMUNEDOL YN CYNAEFU GWOBRAU

Lansiwyd prosiect y Ffŵdi Cymunedol yn 2011 i gefnogi'r galw cynyddol am ofod i dyfu bwyd ac o ganlyniad i Gynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned Llywodraeth Cymru. Ers ei lansio, helpodd y prosiect nifer o safleoedd nad oedden nhw'n cael dim sylw neu ddim digon o ddefnydd i drawsnewid yn erddi bwytadwy ffyniannus, yn berllannau ac yn blotiau tyfu llysiau, yn ogystal â chefnogi nifer o ysgolion a grwpiau cymunedol â gwelyau tyfu ar raddfa fechan.

Bwriad y prosiect Ffŵdi Cymunedol oedd cefnogi byw'n iach, cyflwyno sgiliau gwerthfawr a dod â phobl o bob oedran at ei gilydd, tra'n codi ymwybyddiaeth o fudd ehangach tyfu bwyd yn lleol, wrth helpu i ddod â thirfeddianwyr a chymunedau ynghyd, rhannu sgiliau ac adnabod modelau tyfu addas.


Mae Gardd Gymunedol yr Eos yn Ninas Powys bellach yn cynnwys plotiau tyfu ar gyfer pob gallu, gwelyau wedi'u codi hygyrth ac ardal i'r gymuned ymgasglu ar gyfer rhannu cynnyrch a chynnal gweithdai a digwyddiadau. Trawsnewidiwyd yr ardal chwarae ddiffaith yn ardd gymunedol a ddatblygodd i fod mor llwyddiannus nes ei fod yn darparu bwyd ar gyfer tri banc bwyd lleol gyda'r gwarged.

Meddal Mike Grove, Trysorydd Banc Bwyd y Fro: "Mae gennym ddau fanc bwyd yn y Bari ac un yn Ninas Powys sy'n elwa o Ardd Gymunedol yr Eos.

"Rydym ni'n cefnogi rhyw 25 teulu bob wythnos, felly gall fod yn brysur iawn, ac rydym ni wir yn gwerthfawrogi'r cynnyrch ychwanegol.

"Rydym ni'n cefnogi rhyw 25 teulu bob wythnos, felly gall fod yn brysur iawn, ac rydym ni wir yn gwerthfawrogi'r cynnyrch ychwanegol."

- Mike Grove, Banc Bwyd y Fro



Edrych i'r Dyfodol

(2014-2020)

STRATEGAETH NEWYDD

Er mwyn adeiladu ar seiliau'r mentrau ardderchog yn y rhaglen sy'n bodoli, cyflwynwyd Strategaeth Ddatblygu Leol newydd ar gyfer 2014-2020 ym mis Medi 2014 i Lywodraeth Cymru'i chymeradwyo.

Fe'i datblygwyd yn ystod 2014 gan y Grŵp Gweithredu Lleol a fydd hefyd yn arolygu gweithredu'r cynllun.

Mae'n adnabod y pethau pwysicaf sydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau economi gryfach, i gynnal yr amgylchedd naturiol ac i gefnogi cymunedau gwydn.

Blaenoriaeth y Strategaeth Ddatblygu Leol 2014-2020

Nod: Tyfu economi'r Fro wledig



BLAENORIAETH 1
Creu mwy o werth economaidd o'r amgylchedd naturiol a hanesyddol



BLAENORIAETH 2
Gwneud y gorau o fod yn rhan o ddinas-ranbarth Caerdydd



BLAENORIAETH 3
Annog busnesau lleol a mentrau cymunedol i ddarparu gwasanaethau lleol



BLAENORIAETH 4
Gwella defnydd digidol mewn busnesau lleol a chymunedau

NEWID FFOCWS

Byddai Rhaglen Ddatblygu Wledig newydd yn dod â newidiadau anorfod yn ei sgil o ran y modd y bydd Cymunedau Gwledig Creadigol yn mynd i'r afael â Datblygu Gwledig.

Bydd y Bartneriaeth Wledig a'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cael eu disodli gan un Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI).

Os caniateir y strategaeth, bydd Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) yn canolbwyntio ar ei raglen LEADER sy'n werth rhyw £2miliwn.

Ni fydd yn gallu dyfarnu grantiau mwyach, ond yn lle bydd Llywodraeth Cymru'n gweinyddu Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig y bydd modd i sefydliadau'r Fro roi cynigion gerbron – gobeithio y bydd modd i'r Fro gael rhyw £2m yn ystod y cyfnod rhwng 2014-2020.

GWNEUD IDDO LWYDDO

Rhan bwysicaf unrhyw strategaeth yw sicrhau ei bod yn cael ei darparu.

Mae Strategaeth Ddatblygu Leol (SDL) y Fro wledig yn adnabod mwy na 70 gweithred a allai gael cefnogaeth y rhaglen LEADER.

Mae'r SDL hefyd yn ymroi'n glir i gydweithio gydag ardaloedd gwledig cyfagos, i greu dolenni gyda chynlluniau cyllido eraill, yng Nghymru ac yn yr UE, ac i ddangos blaengarwch a chreadigrwydd yn y maes.

Er y bydd y rhaglen yn cael ei chefnogi gan dîm profiadol o swyddogion, yn y pen draw, y gymuned a busnesau yn y Fro wledig yw craidd y cyfan.

Er mwyn bod yn wir llwyddannus, bydd angen pobl fentrus, ddygn a chreadigol i beri i bethau daigwydd.

Dyma gyfle i sicrhau fod dyfodol y Fro wledig yn gryfach a bod ei chymunedau'n bachu ar y cyfle drwy wneud yn fawr o'u hasedau – o ran lleoliad a phobl.

Eisiau cysylltu â Chymunedau Gwledig Creadigol?

Cymunedau Gwledig Creadigol, Hen Neuadd, Stryd Fawr, Y Bont-faen, Bro Morgannwg, CF71 7AH

Ffôn: 01446 704754 E-bost: create@valeofglamorgan.gov.uk [@ruralvale](https://twitter.com/ruralvale) [f /CreativeRuralCommunities](https://www.facebook.com/CreativeRuralCommunities)

www.creativeruralcommunities.co.uk